# Cofrestru
# Pryd ydw i'n cofrestru?

Disgwylir i chi gofrestru ar ddechrau pob blwyddyn o'ch cwrs.  Bydd hyn yn ystod miss Medi ar gyfer y rhan fwyaf o fyfyrwyr pan fydd modd cofrestru ar-lein ar gyfer pob cwrs sy'n dechrau ym mis Medi neu Hydref.

Os ydych yn cymryd blwyddyn i ffwrdd o'ch astudiaethau, gallwch gofrestru'n gynharach yn ystod mis Awst a byddwn yn anfon neges e-bost atoch yn eich atgoffa i gofrestru ar-lein.

Ar gyfer myfyrwyr iechyd, meddygaeth, Cwrs Ymarfer y Gyfraith/Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion, Hyfforddiant Iaith Saesneg, addysg oedolion, myfyrwyr cyfnewid, myfyrwyr ymweld a myfyrwyrymchwil sy'n dechrau yn ystod misoedd eraill, edrychwch ar yr amserlenni ar gyfer cofrestru'n gynnar a mathau eraill o gofrestru.

Gwybodaeth adnabod ateb unigryw: #2299
Awdur: : Katrin James-Langford
Diweddariad diwethaf: 2019-07-11 11:51


**(c) 2019 Swansea University Web Team <web@swansea.ac.uk> | 23-08-2019 00:41**